| | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod Swyddog** | Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr adroddiad** | Bob Chowdhury, Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023-2024’ |

# 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor.

# 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1. I’r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar yr adroddiad drafft a’r atodiadau sydd ynghlwm fel Atodiad 1 fel y gellir cyflwyno fersiwn derfynol i’r cyngor ym mis Tachwedd 2024.

# 3. Beth yw’r argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad drafft a'r atodiadau sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn amodol ar unrhyw newidiadau a awgrymir y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

# 4. Manylion yr adroaddiad

4.1 Mae'n ofynnol yn statudol ar y Cyngor, o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, fel y'i diwygiwyd, i gael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor yw:

- Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod,

- Gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,
- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod,
- Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod,
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod.

4.2 Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gadw Cyfansoddiad y Cyngor dan adolygiad.

4.3 Mae Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol bod traean o aelodau'r Pwyllgor yn aelodau lleyg. Felly mae chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg ar y Pwyllgor. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod lleyg. Y Cadeirydd presennol yw Mr David Stewart.

4.4 Mynychir pob cyfarfod o'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes, y Pennaeth Cyllid ac Archwilio a'r Prif Archwilydd Mewnol neu eu cynrychiolwyr. Yn ogystal, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Archwilio Cymru.

4.5 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â blwyddyn ariannol 2023-24.

4.6 Ceir rhagor o fanylion am rôl y Pwyllgor ac amlinelliad o'i fusnes yn 2023-24 yn Adran 5 o'r adroddiad hwn, ynghyd â sylwadau allweddol y Pwyllgor o ganlyniad i'w waith.

4.7 Mae'r atodiad hefyd yn nodi sut mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei gylch gorchwyl a chanlyniadau ei werthusiad o'i arferion a'i effeithiolrwydd yn erbyn y 'Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn 2022.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corffoeathol?

5.1. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl bwysig mewn perthynas â thema'r Cynllun Corfforaethol o Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n perfformio'n dda.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Cymerir camau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau'r Cyngor o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol - nid oes angen casgliad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghori gyda'r Pwyllgorau Archwilio nac eraill at ddibenion yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda fel y crynhoir yn adran 3 ac y manylir arno yn yr adroddiad. Nid oes gan yr adroddiad hwn unrhyw effaith ariannol uniongyrchol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y risg o beidio â chael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol yw y gallai fod diffyg goruchwyliaeth o lywodraethu corfforaethol y Cyngor sy’n elfen allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiant wrth ddarparu gwasanaethau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i’r Pwyllgor gynhyrchu adroddiad blynyddol.